CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 17 MEHEFIN 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mr P J Wood (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr J Bader (Aelod)	Mr. D Carr
	Mrs A Prescott-Bird

Llongyfarchodd yr aelodau'r Parch. Davies ar gael ei ailethol yn Ddirprwy Gadeirydd.

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn eitem 7 ar yr agenda, sef Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot gan fod ei wraig yn Gynghorydd Cymunedol ar ran Cymuned Crynant. **Cytunwyd** na fyddai'n rhaid i'r Cadeirydd adael yn ystod y drafodaeth.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 12 MAI 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol

3.1 Ar hyn o bryd, roedd y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol (MSFM) gydag Is-adran Noddi'r Comisiwn yn cael ei addasu er mwyn iddo gyd-fynd â'r Comisiwn. Disgwylir y byddai'r MSFM terfynol yn barod i gael ei lofnodi'n fuan.

Cynadleddau

3.2 Cafodd taflen Wybodaeth y Comisiwn ei chymeradwyo gan yr Ymgyrch Saesneg Clir a dyfarnwyd nod Crisial iddi. Mae'r daflen nawr yn nwylo'r argraffwyr.

Fideogynadledda

3.3 Bu trafodaethau ag Amgueddfa Cymru ynglŷn â chyfleusterau fideo-gynadledda i'w rhannu yn parhau a disgwylir penderfyniad yn fuan iawn.

Llyfryn Arweiniad ar Arolygon Etholiadol

3.4 Caiff llythyr Gweinidog Llywodraeth Leol Cynulliad Cymru ei gynnwys yn argraffiad nesaf y Llyfryn Arweiniad ar Arolygon Etholiadol.

Gweithdai Blynyddol

3.5 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwneud trefniadau ar gyfer y Gweithdai ac roedd eisoes wedi archebu'r mannau cyfarfod a'r cyfieithwyr ar y pryd.

Cyfarfod Cyswllt Rhyng-gomisiynol

3.6 Roedd Comisiwn Ffiniau'r Alban wedi awgrymu cynnal y Cyfarfod Cyswllt Rhyng-gomisiynol nesaf yn ystod yr wythnos yn cychwyn 19 Ebrill 2010.

4. AROLWG CYMUNEDOL BLAENAU GWENT – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU DRAFFT

Cendl – Badminton, Cendl a Rasa

4.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau a gafwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cytuno â chynnig y Comisiwn i ddileu Cymuned Cendl a chreu tair Cymuned newydd, sef Badminton, Cendl a Rasa. Roedd y Cyngor o'r farn, fodd bynnag, y dylid cadw'r ffin ward bresennol ar gyfer rhan ganol y ffin arfaethedig rhwng cymunedau newydd Badminton a Chendl. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw ei gynnig i ddileu Cymuned Cendl a chreu tair cymuned newydd, sef Badminton, Cendl a Rasa. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn awgrym Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i gadw'r ffin ward bresennol ar gyfer rhan ganol y ffin rhwng cymunedau arfaethedig Badminton a Chendl.

Cendl a Bryn-mawr

4.2 Nododd y Comisiwn y gefnogaeth i'r cynnig hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw ffin arfaethedig sef symud Amberleigh House o Gymuned Bryn-mawr i Gymuned Cendl yn y Cynigion Terfynol.

Tredegar

4.3 Nododd y Comisiwn gefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i'r newid awgrymedig hwn i'r ffin rhwng wardiau Central a West a Sirhywi yng Nghymuned Tredegar. Datganodd y Cyngor hefyd ei fod yn ystyried y dylid cael barn preswylwyr yr eiddo yr effeithir arnynt gan y newid awgrymedig i'r ffin rhwng Wardiau Central a West a Georgetown yn Vale Terrace yng Nghymuned Tredegar. Fodd bynnag, cyflwynwyd y ddau newid hyn gan y Comisiwn yn y Cynigion Drafft i'w hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ac y gallai, os mynnai, wneud y newidiadau fel rhan o arolwg trefniadau etholiadol Cymuned Tredegar. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn awgrymu yn ei Gynigion Terfynol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent gynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Cyngor Cymuned Tredegar.

Abertyleri a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.4 Nododd y Comisiwn gefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Cymuned Abertyleri a Llanhiledd i'r newid arfaethedig i'r ffin er mwyn trosglwyddo Bournville o Gymuned Nant-y-glo a'r Blaenau i Gymuned Abertyleri. Nodasant hefyd wrthwynebiad Cyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau a oedd o'r

farn nad oedd y ffin bresennol yn destun anghydfod. Fodd bynnag, ystyriodd y Comisiwn bod y ffin bresennol yn anomalaidd ac y byddai er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus pe bai holl ardal Bournville yn yr un gymuned. Gan fod mwyafrif yr anheddau, ar hyn o bryd yng Nghymuned Abertyleri, byddai'n gwneud synnwyr i gynnwys yr holl ardal yn y gymuned hon. Tynnwyd sylw yn un o'r cynrychiolaethau y dylid cynnwys hen iard ysgol Glanyrafon, sydd i'r gogledd o'r ffin arfaethedig, yn yr ardal i'w throsglwyddo i Gymuned Abertyleri. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ymweld â'r safle er mwyn penderfynu a ddylai'r iard ysgol gael ei chynnwys yn y cynnig a byddai aelodau yn caniatáu i'r Ysgrifenyddiaeth wneud penderfyniad ynghylch y mater hwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol yn amodol ar benderfyniad yr Ysgrifenyddiaeth p'un ai i gynnwys hen iard ysgol Glanyrafon ai peidio.

Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau

4.5 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a oedd yn cefnogi ei gynnig oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Chyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau a gwrthwynebiad Cyngor Cymuned Bryn-mawr a'i gefnogaeth i'r cynnig gwreiddiol a fyddai golygu trosglwyddo datblygiad tai Lakeside i Fryn-mawr. Yn yr adroddiad Cynigon Drafft, ystyriwyd gan mai'r unig fynediad i ddatblygiad tai Lakeside oedd drwy Nant-y-glo a'r Blaenau fod hyn yn dangos ei bod yn briodol cynnwys yr eiddo yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, roedd y Comisiwn o'r farn o hyd bod y ffin bresennol yn yr ardal hon yn briodol o ran llywodraeth leol effeithiol a hwylus ac ni wnaeth unrhyw gynigion i newid y rhan hon o'r ffin. Yn y Cynnig Drafft hefyd cafwyd y farn nad oedd y ffin rhwng Cymunedau Bryn-mawr a Nant-y-glo a'r Blaenau i'r dwyrain o ardal Lakeside bellach wedi'i diffinio'n glir. Cynigiwyd ffin yr ystyriwyd ei bod yn briodol o ran ei bod wedi'i diffinio'n glir ac yn cynnwys ardaloedd gyda'i gilydd sy'n unffurf. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau, mae'r Comisiwn o'r farn o hyd y byddai newid a gynigiwyd yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a hwylus. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Cwm a Glynebwy

4.6 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cefnogi ei gynnig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Glynebwy

4.7 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cefnogi ei gynnig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

5. AROLWG CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – YSTYRIAETH O GYNRYCHIOLAETHAU DRAFFT

5.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r adroddiad Cynigion Drafft.

Llandochau a Llanfihangel-y-pwll

5.2 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llandochau yn cefnogi ei gynnig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Llan-faes a Llanilltud Fawr

5.3 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Tref Llanilltud Fawr yn cefnogi ei gynnig a hefyd cynrychiolaeth oddi wrth unigolyn sy'n berchen eiddo yn Llan-faes yn gwrthwynebu'r cynnig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Penarth a Sili

5.4 Ni dderbyniwyd unrhyw gynrychiolaethau ychwanegol a **chytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Pendeulwyn a Llanddunwyd

5.5 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Cymuned Llanddunwyd yn cefnogi ei gynnig. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cadw'r ffin arfaethedig ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Saint-y-brid

5.6 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau lawer a dderbyniwyd ynghylch Saint-y-brid ac ystyriwyd holl gynrychiolaethau a oedd o blaid ac yn erbyn rhannu'r gymuned. Awgrymwyd nad oedd llawer o'r materion a grybwyllwyd yn y cynrychiolaethau i rannu'r gymuned o fewn cylch gwaith y Cyngor Cymuned i'w hunioni, a byddai problemau y byddai angen asiantaethau eraill ymyrryd yn eu cylch yn elwa o Gyngor Cymuned mwy a chryfach yn cynrychioli'r bobl. Nid ystyriwyd bod y gymuned yn ei chyfanrwydd yn fawr o ran maint ac er nad oedd Llanilltud Fawr ar lan y môr, nid oedd yn bentref pell a diarffordd wedi'i wahanu o Aberogwr a Southerndown. Ystyriwyd y dystiolaeth a'r goblygiadau a **chytunwyd** na fyddai er budd llywodraeth leol effeithiol a hwylus i wneud newid o'r fath.

Y Barri

5.7 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth oddi wrth Gyngor Tref Y Barri yn cefnogi ei gynnig a'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Barry Shaw yn rhestru anomaleddau ychwanegol i ffiniau wardiau yn ardal Cyngor Tref Y Barri. **Cytunwyd** y byddai cynnig y Comisiwn, sef y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ystyried arolwg o wardiau cymuned Cyngor Tref Y Barri yn cael ei gadw ar gyfer y Cynigion Terfynol.

Ewenni

5.8 Nododd y Comisiwn y gynrychiolaeth bellach oddi wrth Gyngor Cymuned Ewenni yn cynnig arolwg pellach o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. **Cytunwyd** y byddai geiriad arfaethedig y Comisiwn yn yr adroddiad drafft yn tynnu sylw at y ffaith y byddai arolwg o'r fath y

tu allan i gylch gwaith yr arolwg ffiniau cymunedol yn cael ei gadw ar gyfer y Cynigion Terfynol.

6. AROLWG ETHOLIADOL CASNEWYDD – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

6.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau cychwynnol a dderbyniwyd a'r cynlluniau drafft a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu dau gynllun arall er mwyn gweld a fyddai modd gwella cydraddoldeb democrataidd ymhellach.

7. AROLWG ETHOLIADOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

7.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau cychwynnol a dderbyniwyd a'r cynlluniau drafft a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu dau gynllun arall er mwyn gweld a fyddai modd gwella cydraddoldeb democrataidd ymhellach a'r amrywiant o'r gymhareb 1:1,750.

8. AROLWG ETHOLIADOL SIR DDINBYCH – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

8.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau cychwynnol a dderbyniwyd a'r cynlluniau drafft a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu dau gynllun arall er mwyn gweld a fyddai modd gwella cydraddoldeb democrataidd ymhellach a'r amrywiant o'r gymhareb 1:1,750.

9. YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

9.1 Roedd y Comisiwn o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch arolygon etholiadol fyddai cyhoeddi datganiad i'r wasg adeg Cynigion Drafft o'r arolwg. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn paratoi datganiadau i'r wasg ar gyfer y pedwar arolwg cyntaf a byddai datganiadau i'r wasg yn cael eu paratoi ar gyfer gweddill yr arolygon er mwyn i'r Aelodau i'w hystyried ynghyd â chynlluniau cynigion drafft. **Cytunwyd** y byddai datganiadau ar wahân yn cael eu paratoi, un yn cynnwys yr holl arolwg etholiadol ac un arall ar gyfer arolwg etholiadol pob sir. Byddai'r rhain yn cael eu rhoi i'r cyfryngau lleol a chenedlaethol a fyddai ganddynt y dosbarthiad mwyaf posibl.

9.2 **Cytunwyd** paratoi sgript fer ar ffurf 'sylwadau bachog' ar gyfer y radio ac enwebir Aelodau i fod yn llefarydd ar ran pob ardal arolwg â'r Cadeirydd yn arwain ar gyfer materion arolwg cenedlaethol a'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer materion arolwg lleol. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio cyngor a gofyn am gymorth gan swyddogion y wasg o Gyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

10. CYNNYDD YNGHYLCH AROLYGON

10.1 Amlinellwyd y sefyllfa gyfredol i Aelodau. Disgwylir y byddai:

- Adroddiadau Cynigion Drafft ar gyfer arolygon etholiadol Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf y Comisiwn;
- Cynlluniau ar gyfer arolygon etholiadol Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Awst;
- Cynlluniau ar gyfer arolwg etholiadol Môn yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Awst;
- Adroddiad Cynigion Terfynol ar gyfer yr arolwg o'r ffin rhwng Powys a Morgannwg Ganol yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd mis Mehefin;
- Adroddiad Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Caerffili yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Gorffennaf;
- Cynigion Drafft pellach ar gyfer Arolwg Cymunedol Abertawe yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau mis Gorffennaf;
- Drafft o Adroddiad Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Blaenau Gwent yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf; ac y byddai
- Drafft Adroddiad Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Cymunedol Bro Morgannwg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod mis Gorffennaf.

10.2 Nodwyd y byddai'n rhaid gohirio cychwyn arolwg etholiadol Abertawe oherwydd yr amser ychwanegol a gymerwyd gan Gynigion Drafft Pellach Arolwg Cymunedol Abertawe **Cytunwyd** y byddai amserlen yr arolygon yn cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu newidiadau o'r fath ac fe'i cyflwynir i gyfarfod mis Gorffennaf.

11. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNNYDD EI ROI AR WAITH

11.1 Nododd yr Aelodau'r sefyllfa o ran rhoi argymhellion Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar waith. Ystyriwyd bod angen amserlen ar gyfer y Cynllun Strategol. **Cytunwyd** i lansio'r Cynllun Strategol yn ystod yr hydref a'i drafod yn ystod gweithdai blynyddol y Comisiwn.

11.2 Nodwyd y gwnaed cynnydd pellach ynghylch cysylltu â rhanddeiliaid gan y byddai gan y Comisiwn stondinau yng nghynadleddau blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru, sydd ar ddigwydd.

12. ADRODDIAD CYLLID – DIWEDD BLWYDDYN 2008-09

12.1 Nododd yr aelodau'r sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2008-09. Adroddwyd bod y tanwariant yn fwy na'r disgwyl oherwydd bod y gost o newid TG Cynulliad Cymru yn llai nag yr amcangyfrifwyd.

13. UNRHYW FATER ARALL

13.1 Roedd aelodau o'r farn bod y prawf diweddar o wasanaeth asiantaeth newyddion electronig wedi bod o ddefnydd cyfyng i'r Comisiwn, oherwydd nifer bychan yr eitemau yn ymwneud â ffiniau awdurdodau lleol. **Cytunwyd** na fyddai'r Comisiwn yn prynu'r gwasanaeth hwn.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2009 am 9:00 a.m.
Dydd Mawrth 11 Awst 2009
Dydd Iau 17 Medi 2009
Dydd Mercher / Iau 7 / 8 Hydref 2009
Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009
Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2009